Dyddiad/Date: 12 Mehefin 2026

Annwyl

**ATISN 26982 – Staff dwyieithog**

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais a dderbyniais ar 19 Mai 2026. Roeddech yn gofyn am wybodaeth am benodi staff dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar safleoedd Cadw ac am gadarnhad bod Cadw wedi mabwysiadu polisi o sicrhau bod staff dwyieithog ar gael wrth ddesgiau derbynfeydd.

**Ein hymateb**

Mae Cadw wedi gweithio gyda thîm Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar drefniadau sydd â'r bwriad o gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ar safleoedd Cadw. Mae recriwtio i swyddi ar y safle yn parhau i fod yn heriol, gan gynnwys recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg, gan adlewyrchu trosiant staff a newidiadau o fewn y gweithlu presennol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, recriwtiwyd 30 o staff ychwanegol i rolau ar safleoedd. O'r rhain, roedd gan 17 sgiliau Cymraeg ar Lefel 3 neu uwch ar y pwynt penodi. Penodwyd y 13 arall ar ymrwymiad contractiol i ddysgu Cymraeg. Mae Cadw yn ariannu gwersi Cymraeg i'r staff hyn yn ystod oriau gwaith, ac ers hynny mae un aelod o staff wedi cael ei asesu ar Lefel 3.

Mae cynnydd yn cael ei fonitro, ac mae gan y staff dan sylw fynediad at gymorth gan fentor grŵp o fewn y tîm gwasanaethau ymwelwyr. Disgwylir i bedwar aelod arall o staff a recriwtiwyd yn ddiweddar ymuno â'r rhaglen unwaith y bydd eu prosesau cyflogaeth wedi'u cwblhau.

Mae Cadw hefyd wedi cyflwyno mesurau ychwanegol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ei safleoedd. Mae hyn yn cynnwys darparu deunyddiau Cymraeg i geidwaid ac ymwelwyr a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn timau’r safleoedd.

Amgaeaf yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,